




Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Anabledd Dysgu Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg




Ein cynllun i gynnig mwy o'n gwasanaethau yn Gymraeg
Crynodeb hawdd i'w ddarllen o'n 'Cynllun Iaith Gymraeg'
Rhagfy 2014

Y Cynllun hwn

Cynllun Iaith Gymraeg yw dogfen sydd yn dweud sut y byddwn yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn ein gwaith.

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi ysgrifennu Cynllun Iaith Gymraeg newydd.



Cawsom help gan Comisiynydd y Gymraeg i ysgrifennu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn helpu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.



Mae hwn yn grynodedb hawdd i'w ddarllen o'n Cynllun Iaith Gymraeg. Dydy e ddim yn cynnwys popeth sydd yn y fersiwn lawn.

Os ydych eisiau gweld ein Cynllun Iaith Gymraeg llawn gallwch fynd i'n gwefan neu ein ffonio a gofyn i ni anfon un atoch.



029 2068 1160



www.adcymru.org.uk



Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien, Caerdydd
CF14 5GG

Beth ydyn ni'n Gredu?

Mae Anabledd Dysgu Cymru eisiau i bob plentyn ac oedolyn ag anabledd dysgu yng Nghymru gael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.



Er mwyn eich helpu i gael eich gwerthfawrogi a'ch cynnwys rydym eisiau gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cael ein gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn credu bod angen trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.



Mae hyn y golygu ein bod eisiau i chi gael ein gwasanaethau yn yr iaith yr ydych chi yn ei dewis.

Rydym yn credu bod gwneud yn siŵr eich bod yn gallu siarad yr iaith yr ydych chi yn ei dewis yn eich helpu i gyflawni eich hawliau a'ch statws.

Os mai Cymraeg ydy eich iaith gyntaf, rydym yn deall y bydd gennych broblemau efallai os oes rhaid i chi:

- Siarad Saesneg
- Darllen dogfen yn Saesneg
- Gwrando ar rhywun sydd yn siarad Saesneg

Ble rydym ni nawr?

Am nifer o flynyddoedd rydym ni wedi cynnig ein holl wasanaethau yn Saesneg a chymaint ag y gallwn yn Gymraeg.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i gynnig mwy o'n gwasanaethau yn Gymraeg.

Beth ydyn ni eisiau ei wneud yn y tair blynedd nesaf?

Os ydych eisiau siarad gyda ni yn Gymraeg neu dderbyn gwasanaethau gennym yn Gymraeg, rydym yn anelu i allu gwneud hynny.

Rydym hefyd eisiau i'r cyrff sydd yn aelodau drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae ein Cynllun yn dweud:

- Beth yr ydym yn ei wneud nawr yn y ddwy iaith.
- Y pethau newydd yr ydym yn mynd i'w gwneud yn y ddwy iaith.
- Beth fyddwn ni yn ei wneud eleni, yn 2015, 2016 ac yn 2017.
- Pwy fydd yn gwneud y gwaith.



Dyma rai o'r pethau yr ydym yn bwriadu eu gwneud:

Ein Delwedd



Mae ein logo, yr ysgrifen ar frig ein papurau a'r arwyddion yn ein swyddfeydd, cynhadleddau a digwyddiadau yn y ddwy iaith nawr.

Dogfennau print, dogfennau ar e-bost ac ar y wefan



Rydym yn gwneud pob o'r dogfennau yn y ddwy iaith yn barod, fel ein cylchgrawn Llais, Adroddiad Blynyddol a Thafleenni.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwefan yn Gymraeg. Yr unig rannau nad ydynt yn Gymraeg yw pan fyddwn yn cynnwys geiriau sydd wedi'u rhoi i ni gan sefydliadau eraill yn Saesneg yn unig.

Pan fyddwn yn gwneud dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân, byddwn yn rhoi gwybod i chi fel eich bod yn gallu ei chael yn yr iaith arall.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein dogfennau yn barod yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Facebook a Trydar



Nid ydym wedi defnyddio Cymraeg ar Facebook na Trydar.

Yn y dyfodol, fe wnawn yn siŵr ein bod yn defnyddio Cymraeg ar Facebook a Trydar.

Pobl yn ein ffonio



Rydym yn ateb y ffôn nawr yn y ddwy iaith.

Byddwn yn gwneud yn siŵr y gallwch barhau gyda'ch sgwrs ffôn yn Gymraeg os ydych eisiau gwneud hynny. Bydd hyn yn golygu rhoi mwy o hyfforddiant i'r staff i ddysgu Cymraeg.

Pobl yn ysgrifennu llythyr neu yn anfon e-bost atom



Os ydych yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn eich ateb yn Gymraeg.

Cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau



Rydym eisiau gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cymryd rhan yn ein hyfforddiant a'n digwyddiadau yn eich dewis iaith.

Rydym yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn ein digwyddiadau nawr.

Pan fyddwch yn archebu i ddod i ddigwyddiad neu i gwrs hyfforddi dyn ni'n gofyn i chi am eich dewis iaith. Yna byddwn yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn ateb eich anghenion iaith.

Gweithio ar brosiectau a gweithio gyda chyrff eraill



Dyn ni'n gwneud yn siŵr bod ein holl brosiectau a'n gwaith gyda chyrff eraill yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Dyn ni'n cefnogi ein haelodau i roi gwasanaethau yn y ddwy iaith.

Hyfforddiant i staff ac ymddiriedolwyr



Mae staff yn ateb y ffôn nawr yn y ddwy iaith ac mae ganddynt eiriau a brawddegau defnyddiol yn Gymraeg.

Mae staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol yn barod mewn Cymraeg.

Byddwn yn annog staff i fynd ar gyrsiau i ddysgu Cymraeg.

Recriwtio staff newydd




Mae'r holl wybodaeth yn cael ei wneud nawr yn y ddwy iaith.

Os ydym eisiau recriwtio aelod newydd o'r staff byddwn yn gweld os oes angen gallu siarad Cymraeg i wneud y gwaith.

Yna byddwn yn gwneud yr hysbyseb, manylion y swydd a'r cyfweiliad yn ôl y lefel o Gymraeg sydd ei angen.

Recriwtio ymddiriedolwyr ar ein pwyllgor rheoli



Byddwn yn ceisio gael o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ein pwyllgor rheoli bob tro.